# Yr offerynnau cerdd a ddefnyddir

## Ffidil

Mae’r ffidil yn perthyn i deulu’r llinynnau. Crëir y seiniau drwy ddefnyddio bwa neu blycio’r tannau â’r bysedd. Caiff yr offeryn ei ddal dan yr ên, yn gorffwys ar yr ysgwydd. Y ffidil yw’r llais uchaf yn nheulu’r llinynnau. Mae gan yr offeryn hwn dôn hyfryd sy’n gallu bod yn dawel a llawn mynegiant, neu’n gyffrous a disglair.

Dyma rai enghreifftiau o’r seiniau y gall ffidil eu gwneud:
Enghraifft o’r Ffidil
Twinkle twinkle little star
Riff ar y Ffidil



## Corn Ffrengig

Mae’r corn Ffrengig yn perthyn i deulu’r offerynnau pres. Mae chwaraewyr yr offerynnau hyn yn cynhyrchu eu sain trwy wasgu eu gwefusau tra’n chwythu aer drwy getyn ceg ar siâp cwpan neu dwndis. Mae’r corn Ffrengig yn adnabyddus am chwarae nid yn unig ffanfferau ac alawon hela, ond hefyd melodïau swynol.

Dyma rai enghreifftiau o’r seiniau y gall corn Ffrengig eu gwneud:
Twinkle twinkle little star
Star Wars



Telyn

Mae'r delyn yn perthyn i deulu'r llinynnau. Caiff y seiniau eu creu drwy blycio ar y llinynnau â'ch bysedd a gwasgu ar bedalau â'ch traed. Fel arfer, mae'r telynor yn eistedd i lawr i chwarae'r offeryn hwn, sy'n adnabyddus am ei alawon tyner a'i rediadau llyfn.

Dyma rai enghreifftiau o'r seiniau y gall telyn eu gwneud:
The Nutcracker
Dafydd y Garreg Wen



Offerynnau Taro
Credir fod teulu'r offerynnau taro yn cynnwys rhai o'r offerynnau cerdd hynaf mewn bodolaeth. Caiff yr offerynnau hyn eu seinio trwy gael eu taro gan drawydd, ac mae enghreifftiau o offerynnau taro'n cynnwys drymiau, ysgydwyr, tambwrîn, a seiloffon.

Dyma rai enghreifftiau o'r seiniau y gall offerynnau taro eu gwneud:
Gwahanol enghreifftiau

Sinfonia Cymru

arts active
actifyddion artistig

